## Tasg 2

# Cynhaliwyd … Lladdwyd … Gofynnwyd …

1. Sylwch ar y ffurfiau mewn print bras isod:

… **cynhaliwyd** refferendwm BREXIT yn 2016 …

**Lladdwyd** cannoedd o bobl a **dinistriwyd** adeiladau di-ri …

**Gorfodwyd** miloedd o bobl i adael eu cartrefi. **Gwnaethpwyd** difrod gwerth dwy filiwn (2 000 000 000) o ddoleri …

**Gofynnwyd** i'r cyhoedd adael y sŵ …

**Symudwyd** y gorila anferth …

Beth yw ystyr y ffurfiau hyn?

| |
|---|
| Mae'r ffurfiau uchod sy'n gorffen yn -wyd yn ffurfiol iawn. Rydych chi'n eu gweld ac yn eu clywed mewn erthyglau a bwletinau newyddion ac mewn gwaith ffurfiol, e.e. cofnodi sut y gwnaethpwyd arbrawf gwyddonol. |

2. Newidiwch y ffurfiau mewn print bras isod fel eu bod yn gorffen yn **-wyd**.

Arbrawf gwyddonol:

- **Cafodd** blodyn gwyn **ei ddewis**.
- **Cafodd** y coesyn **ei dorri**.
- **Cafodd** y blodyn **ei roi** mewn dŵr oedd yn cynnwys inc du.
- Trodd y blodyn gwyn yn ddu gan ei fod wedi sugno'r inc i fyny'r coesyn.

Eitem newyddion

- **Cafodd** dau ddyn **eu gweld** yn rhedeg allan o’r banc.
- **Cawson** nhw **eu ffilmio** ar y camera diogelwch.
- **Cawson** nhw **eu dilyn** gan ddau gar heddlu.
- **Cawson** nhw **eu stopio** wrth yr afon.
- **Cafodd** y ddau ddyn **eu harestio**.